



Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dyddiad: Dydd Iau 27 Ebrill 2017

Amser: 10:30y.b. tan 12:30y.h.

Lleoliad: Pencadlys yr Heddlu, ystafell
SCC002

Yn bresennol:-

NH (Cadeirydd)	Ymgynghorydd Annibynnol
DT	Ymgynghorydd Annibynnol
NM	Ymgynghorydd Annibynnol
PS	Ymgynghorydd Annibynnol
DM	Ymgynghorydd Annibynnol
KR	Ymgynghorydd Annibynnol
PR	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
PL	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
LJ	Prif Gwnstabl Cynorthwyol, (PGC), HDP
AL	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP
MBr (cofnodion)	Swyddog Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP
EN	Uwch Reolwr Cyfathrebu Corfforaethol, HDP
CD	Rheolwr Prosiect, HDP
MD	Swyddog Ymgysylltu Cymunedol, SCHTh
MN	AHEM (yn gwrando drwy alwad cynhadledd)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chyflwyniadau

JJ	Ymgynghorydd Annibynnol
BS	Ymgynghorydd Annibynnol
NC	Ymgynghorydd Annibynnol
RB	Ymgynghorydd Annibynnol

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion yn cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.

3. Materion Gweinyddol

Trafodwyd dyddiadau cyfarfodydd yn fras ac ystyriwyd mai dyddiau Llun a Mawrth oedd fwyaf cyfleus ar gyfer cyfarfodydd.

Rhoddodd MD drosolwg o'i rôl i aelodau'r GYA a gofynnodd iddynt ei gwahodd i gyfarfodydd grŵp y tu allan i'r GYA.

Cam Gweithredu:- MB i anfon manylion cyswllt Melissa at aelodau.

Croesawodd NH KT i'w gyfarfod cyntaf.

Camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol:-

Cam Gweithredu	Manylion	Perchennod	Statws
1	Gwahodd aelod o'r GYA i gyfarfodydd iechyd meddwl strategol er mwyn rhoi cyngor annibynnol.	MBr	Cwblhawyd – Gwahoddwyd DT i'r cyfarfod hwn.
2	Heddwyn Jones i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran sicrhau bod cynlluniau gorsafoedd heddlu newydd yn hygyrch.	MBr	Cwblhawyd – Dywedodd AL bod gorsafoedd Llanelli, Caerfyrddin a Phorth Tywyn yn cael eu diweddarau ar hyn o bryd. Bydd pob gorsaf yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd pan fyddant wedi'u hadnewyddu. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r angen ar gyfer cyfleusterau sy'n niwtral o ran y rhywiau a chyfleusterau sy'n dementia-gyfeillgar. Estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r GYA ymweld â'r gorsafoedd newydd.
3	AL i ddiwygio'r cylch gorchwyl a'u rhannu ymysg y grŵp er mwyn dod â'r mater i ben yn y cyfarfod nesaf.	AL	Cwblhawyd. Cynhwysir Cylch Gorchwyl ar yr Agenda.
4	DT i anfon ei nodiadau o'r Sesiwn Wybodaeth Genedlaethol am y Broses Stopio a Chwilio at MB er mwyn iddi eu dosbarthu i aelodau'r grŵp hwn.	DT	Cwblhawyd
5	Gosod amlinelliad byr ar gyfarfodydd/gweithgareddau y mae pob aelod wedi mynychu fel cynrychiolydd y GYA ar agenda'r GYA fel eitem barhaol.	MBr	Cwblhawyd
6	DB i ymchwilio i'r mater a godwyd gan NH	DB	Cwblhawyd – rhoddwyd

	Ile nad oedd troseddau casineb wedi'i nodi fel ffactor cymhellol mewn ymchwiliad.		diweddariad i NH am y mater hwn.
7	Aelodau'r GYA i anfon unrhyw syniadau ymlaen mewn perthynas â'r Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol i MBr.	Pob aelod	Cwblhawyd
8	Gwahodd aelodau'r GYA i lansiad "Gweithio Tuag at ddod yn Sefydliad Dementia Gyfeillgar" sy'n cael ei gynnal yn y Pencadlys ym mis Chwefror 2017.	AL	Cwblhawyd

4. Gwefan newydd Heddlu Dyfed-Powys.

Rhoddodd Emma Northcote (EN), Uwch Reolwr, Cyfathrebu Corfforaethol, gyflwyniad mewn perthynas â chynllun gwefan newydd Heddlu Dyfed-Powys. Esboniwyd y byddai'r cynllun newydd yn gwella llywio ac mae'r wefan yn cael ei hailddatblygu o safbwynt y cwsmer. Gofynnodd EM am adborth mewn perthynas â'r meysydd canlynol:-

- Terminoleg
- Mynediad
- Cynllun
- Lliwiau

Esboniwyd y byddai gwefannau Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn wefannau ar wahân. Er bod y ddau'n gweithio ar wahân, bydd y wefan newydd yn dangos yn glir sut mae'r ddau sefydliad yn cydweithio.

Dywedodd y PGC bod angen cynnwys manylion cyswllt ar y dudalen Troseddau Casineb, gan gynnwys enwau a lleoliadau swyddogion cyswllt troseddau casineb. Dywedodd NH y dylid cynnwys gwybodaeth am sut i gysylltu â swyddogion a SCCH yn gyffredinol ar y wefan er mwyn sicrhau eu bod nhw'n hygyrch i'r cyhoedd.

Cam gweithredu:- EN i sicrhau bod manylion swyddogion troseddau casineb yn cael eu cynnwys ar y dudalen troseddau casineb a bod manylion cyswllt cyffredinol swyddogion/SCCH yn cael eu cynnwys ar y wefan newydd.

Mynegodd NH bryder ynglŷn â'r defnydd o iaith sy'n ennyn casineb ar dudalen Facebook Heddlu Dyfed-Powys. Esboniodd EN anawsterau monitro deunydd o'r fath, yn arbennig o ystyried bod angen parchu rhyddid barn. Gofynnwyd i aelodau'r GYA adrodd am unrhyw droseddau neu ddigwyddiadau casineb roeddent yn gwybod amdanynt.

Esboniwyd y byddai'r wefan newydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pwy i gysylltu â nhw pe na bai'r ymholiad yn fater ar gyfer yr heddlu.

Gofynnodd NM am i'r holl ddogfennau/taflenni sy'n cael eu hanfon i'r cyhoedd gynnwys rhif ffôn symudol y gwasanaeth negeseuon testun difrys er mwyn galluogi pobl fyddar, pobl sy'n drwm eu clyw a phobl â nam ar eu lleferydd i gysylltu os ydyn nhw'n dymuno hynny.

Cam Gweithredu:- Sicrhau bod Tymoedd Plismona Bro yn nodi rhif ffôn symudol y gwasanaeth negeseuon testun difrys ar gyfer pobl fyddar, pobl sy'n drwm eu clyw a phobl â nam ar eu lleferydd ar ddogfennau a thflenni sy'n cael eu hanfon at

aelodau o'r cyhoedd. Bydd adborth gan NM yn cael ei fwydo i'r adolygiad hygyrchedd.

Rhoddodd EN wybod i'r grŵp am rôl newydd o fewn cyfathrebu corfforaethol a fydd yn ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned.

Cafwyd trafodaeth o gwmpas cael cwestiwn 'sut fedrwn ni helpu?' yn hytrach na blwch ar gyfer teipio'ch ymholiad. Mynegwyd pryder na fyddai'r ateb yn ymddangos pe bai camsillafu yn yr ymholiad.

Dywedodd PS y byddai'n well gan bobl fyddar gael gwefan weledol. Gofynnodd EN i PS ystyried yr hyn ddylai gael ei gynnwys ar dudalen Iaith Arwyddion Prydain HDP.

Cam Gweithredu:- EN ac AL i weithio gyda PS er mwyn sicrhau bod tudalen Iaith Arwyddion Prydain yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac yn cael ei ehangu lle bo angen.

Awgrymodd NH y dylai unrhyw e-byst sy'n cael eu dychwelyd pan mae rhywun allan o'r swyddfa neu ddim ar gael gynnwys gwybodaeth ynghylch sut i adrodd am argyfwng.

Cam Gweithredu:- EN i edrych ar y posibilrwydd o negeseuon 'allan o'r swyddfa' sy'n cynnwys gwybodaeth am sut i adrodd am argyfwng h.y. gwybodaeth am 999.

Nododd DT nad oedd wedi gweld unrhyw wybodaeth mewn perthynas ag iechyd meddwl ar y wefan. Cadarnhaodd EN y byddai iechyd meddwl yn cael ei drafod o dan 'cyngor a chymorth'.

Cam Gweithredu:- EN i anfon dolen ar gyfer fersiwn beta gwefan newydd HDP pan fydd y fersiwn beta yn barod.

5. Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff

Darparodd Catherine Davies (CD), Rheolwr Prosiect, drosolwg o'r camerâu fideo a wisgir ar y corff sy'n cael eu cyflwyno i swyddogion heddlu ar 2 Mai 2017.

Dangosodd CD y camera fideo a wisgir ar y corff i bawb ac esboniodd sut mae'n gweithio. Esboniodd CD bod tystiolaeth a gedwir yn cael ei archwilio'n llawn a bod y fideo'n cael ei wyllo ar gyfer dibenion plismona yn unig. Dangoswyd clip fideo byr i'r grŵp er mwyn dangos manteision cael camera.

Gofynnodd AL i bawb roi gwybod iddi os oedd ganddynt unrhyw adborth mewn perthynas â'r asesiad effaith ar gydraddoldeb a oedd wedi'i ddosbarthu i bawb cyn y cyfarfod.

Cam Gweithredu:- Aelodau'r GYA i roi adborth ar yr asesiad effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â chamerâu fideo a wisgir ar y corff os oedd ganddynt unrhyw adborth.

Dywedodd KT bod talfyriad yn yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, sef TSU. Mae angen ei ysgrifennu'n llawn o fewn y ddogfen er mwyn ei egluro i'r cyhoedd.

Cam Gweithredu:- CD i ddiwygio'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i ehangu'r talfyriad TSU.

Mynegodd DT bryder am swyddog yn defnyddio'r camera o gwmpas rhywun sy'n dioddef paranoia oherwydd gall camerâu weithiau wneud i unigolion deimlo bod dimensiwn arall y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohono. Nododd CD hyn a bydd yn adolygu'r polisi.

Cam Gweithredu:- CD i adolygu'r polisi Camerâu Fideo a Wisgir ar y Corff mewn perthynas â'u heffaith ar unigolion sydd ag afiechyd meddwl a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys o fewn hyfforddiant.

6. Trafod y Cylch Gorchwyl Diwygiedig

Trafodwyd y Cylch Gorchwyl diwygiedig a chytunodd pawb eu bod yn fodlon â'r ddogfen. Cadarnhawyd cworwm.

7. Hyfforddiant Parhaus ar gyfer Aelodau'r GYA

Trafododd y grŵp hyfforddiant ar gyfer aelodau'r GYA fel dilyniant i hyfforddiant a dderbyniwyd eisoes o gwmpas diogelu data. Dywedodd AL y byddai angen darparu hyfforddiant mewn perthynas â stopio a chwilio eto i'r rhai sydd heb dderbyn yr hyfforddiant yn barod. Gofynnodd AL i'r grŵp feddwl pa hyfforddiant fyddai o fudd i aelod o'r GYA.

Awgrymwyd y gellid darparu hyfforddiant ynghylch sut i gadeirio cyfarfodydd. Ystyriwyd y byddai hwn yn gwrs gwerth chweil.

Cam Gweithredu:- Pob aelod o'r GYA i ystyried pa hyfforddiant fyddai o fudd i aelodau'r GYA a hysbysu AL er mwyn caniatáu ar gyfer nodi cyfleoedd.

8. Disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn i ddod

Cafwyd trafodaeth am ddisgwyliadau ar gyfer y flwyddyn i ddod a pha feysydd mae aelodau'r GYA eisiau canolbwyntio arnynt. Awgrymodd NH gysylltiad â'r adran gŵn.

Awgrymodd y DBG y byddai ystafell reoli'r heddlu'n faes da i'w ystyried, yn arbennig ein cyfathrebiadau a'r cyngor rydyn ni'n rhoi i'n cymunedau.

Awgrymodd PS gysylltiad â'r defnydd o deledu cylch cyfyng a chadarnhaodd y PGC bod TCC yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gellir ymgysylltu ag aelodau'r GYA fel rhan o'r adolygiad.

Cam Gweithredu:- Ymgynghori â'r GYA fel rhan o'r adolygiad TCC.

9. Diweddariad o gyfarfodydd eraill

Cyfarfod Strategol Iechyd Meddwl

Rhoddodd DT drosolwg o'r Cyfarfod Strategol Iechyd Meddwl diweddar. Dywedodd DT bod swyddogion a ddarparodd brofiadau byw ac sy'n cyflwyno'r hyfforddiant wedi creu argraff fawr arno.

Cyfarfod Stopwatch Llundain

Rhoddodd DT ddiweddariad ynglŷn â'i bresenoldeb yng nghyfarfodydd Stopwatch Llundain. Cadarnhaodd AL bod ei nodiadau wedi'u rhannu ymysg y grŵp.

Cyfarfod gydag AHEM

Rhoddodd DT ddiweddariad ynghylch cyfarfod yr oedd wedi'i fynychu gydag AHEM. Rhoddodd adborth er mwyn i'r GYA gadw cofnod o'r cyflawniadau a dangos tystiolaeth o effaith y grŵp ar bolisiau a gweithdrefnau'r heddlu.

10. Unrhyw Fusnes Arall

Ymddeoliad

Hysbysodd NM y grŵp mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf fel aelod o'r GYA oherwydd roedd wedi penderfynu rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r GYA. Ar ôl bod yn aelod am bedair blynedd a hanner, mae NM eisiau mwynhau mwy o amser rhydd.

Diolchodd NH NM ar ran y grŵp am ei gyfraniad dros y blynyddoedd.

Cwyn am wasanaeth

Mynegodd PS bryder am oedi o ran ymweld â dioddefydd yn dilyn digwyddiad diweddar – teimlwyd y gallai oedi o'r fath fod o ganlyniad i'r ffaith bod y dioddefydd yn fyddar. Cyflwynodd PS gopi o'r nodiadau i'r PGC gan esbonio'r digwyddiad wrthi. Ymddiheurodd y PGC ar ran Heddlu Dyfed-Powys gan ddweud nad hyn yw'r safon gwasanaeth rydyn ni eisiau rhoi i'r cyhoedd. Dywedodd y PGC y byddai'n ymdrin â'r digwyddiad hwn yn bersonol ac yn rhoi diweddariad ynghylch y canlyniadau i PS. Yn ogystal, gofynnodd y PGC i'r grŵp roi gwybod iddi os oeddent yn poeni am safon y gwasanaeth a ddarperir i unrhyw aelod arall o'r gymuned.

Cam Gweithredu:- Y PGC i gynnal ymholiadau ynglŷn â'r digwyddiad y tynnwyd sylw ato, a rhoi diweddariad ynglŷn â'r canlyniad i PS.

Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cadarnhaodd AL ei bod hi wrthi'n drafftio'r adroddiad diweddar blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd NH wedi rhoi diweddariad i'r GYA ynglŷn â hyn.

Cam Gweithredu:- AL i rannu'r adroddiad diweddar ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer sylwadau'r aelodau.

Camau gweithredu o'r cyfarfod hwn:-

Rhif y cam gweithredu	Manylion y cam gweithredu	Perchennog
1	MB i anfon manylion cyswllt Melissa at aelodau.	MB
2	EN i sicrhau bod manylion swyddogion troseddau casineb yn cael eu cynnwys ar y dudalen troseddau casineb a bod manylion cyswllt cyffredinol swyddogion/SCCH yn cael eu cynnwys ar y wefan newydd.	EN
3	Sicrhau bod Timoedd Plismona Bro yn nodi rhif ffôn symudol y gwasanaeth negeseuon testun difrys ar gyfer pobl fyddar, pobl sy'n drwm eu clyw a phobl â nam ar eu lleferydd ar ddogfennau a thafenni sy'n cael eu hanfon at aelodau o'r cyhoedd. Bydd adborth gan NM yn cael ei fwydo i'r adolygiad hygyrchedd.	EN
4	EN ac AL i weithio gyda PS er mwyn sicrhau bod tudalen Iaith Arwyddion Prydain yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac yn cael ei ehangu lle bo angen.	EN
5	EN i edrych ar y posibilrwydd o negeseuon 'allan o'r swyddfa' sy'n cynnwys gwybodaeth am sut i adrodd am argyfwng h.y. gwybodaeth am 999.	EN/AL
6	EN i anfon dolen ar gyfer fersiwn beta gwefan newydd HDP pan fydd y fersiwn beta yn barod.	EN
7	Aelodau'r GYA i roi adborth ar yr asesiad effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â chamerau fideo a wisgir ar y corff os oedd ganddynt unrhyw adborth.	EN
8	CD i ddiwygio'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i ehangu'r talfyriad TSU.	Aelodau'r GYA
9	CD i ddiwygio'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i ehangu'r talfyriad TSU.	CD
10	CD i adolygu'r polisi Camerau Fideo a Wisgir ar y Corff mewn perthynas â'u heffaith ar unigolion sydd ag afiechyd meddwl a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys o fewn hyfforddiant.	CD
11	Pob aelod o'r GYA i ystyried pa hyfforddiant fyddai o fudd i aelodau'r GYA a hysbysu AL er mwyn caniatáu ar gyfer nodi cyfleoedd.	Aelodau'r GYA/AL
12	Ymgynghori â'r GYA fel rhan o'r adolygiad TCC.	MD
13	Y PGC i gynnal ymholiadau ynglŷn â'r digwyddiad y tynnwyd sylw ato, a rhoi diweddariad ynglŷn â'r canlyniad i PS.	PGC
14	AL i rannu'r adroddiad diweddar ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer sylwadau'r aelodau.	AL